Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Dinbych
# Ffordd Rhuthun
# Dinbych
# LL16 3EX

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Crynodeb

Yn Ysgol Uwchradd Dinbych, ym mwyafrif y gwersi, caiff yr addysgu effaith gadarnhaol, ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol o ran datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn cymryd rhan yn weithredol ac maent yn ddysgwyr brwdfrydig. Fodd bynnag, caiff ymddygiad ac agweddau gwael lleiafrif o ddisgyblion effaith negyddol ar y profiad ysgol i ddisgyblion a staff. Mae perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod islaw perfformiad ysgolion tebyg mewn llawer o ddangosyddion dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r cymorth ar gyfer lles disgyblion ac agweddau ar arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol yn cynnwys diffygion pwysig. O ganlyniad, bydd arolygwyr Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol o ran gwella'r meysydd allweddol hyn o'i waith ymhen 12 i 18 mis.

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Argymhellion

A1 Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4, yn enwedig ar gyfer merched

A2 Gwella ymddygiad a phresenoldeb

A3 Cryfhau ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau

A4 Cryfhau arweinyddiaeth ar draws yr ysgol, gyda ffocws penodol ar y systemau a'r trefniadau i gefnogi lles disgyblion

## Prif ganfyddiadau

| 1: Safonau | Digonol, angen gwelliant |
|---|---|

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd ac mae perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod islaw perfformiad ysgolion tebyg mewn llawer o ddangosyddion dros y blynyddoedd diwethaf.

Mewn mwyafrif o wersi, mae disgyblion yn galw dysgu blaenorol i gof yn briodol ac yn gwneud cynnydd priodol. Mae rhai disgyblion yn gwneud cynnydd cryf ac yn cymhwyso eu dysgu yn hyderus i senarios newydd. Mewn mwyafrif o achosion, mae disgyblion yn gwrando'n gwrtais ac yn dal ati i ganolbwyntio ar eu tasgau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion yn canolbwyntio ac nid ydynt yn gwrando'n ddigon da ar eu hathrawon na'u cyfoedion. Ychydig iawn o falchder y maent yn ei ddangos yn eu gwaith, os o gwbl. O ganlyniad, mae cyflwyniad, cynnwys ac ansawdd eu gwaith yn wael iawn ac nid ydynt yn gwneud cynnydd digonol.

Mewn gwersi, mae lleiafrif y disgyblion yn siarad yn glir ac yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at drafodaethau dosbarth, er enghraifft wrth gymharu ffynonellau ynni adnewyddadwy neu ddewis egwyddorion dylunio ar gyfer cynhyrchion newydd. Mae rhai disgyblion yn siarad yn hyderus ac yn eglur. Fodd bynnag, mae mwyafrif o ddisgyblion yn ei chael yn anodd mynegi eu syniadau, ac nid yw lleiafrif ohonynt yn fodlon cyfrannu.

Gall mwyafrif o ddisgyblion ddarllen ar goedd gyda rhuglder addas. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dethol gwybodaeth berthnasol o destun syml yn llwyddiannus. Mae rhai ohonynt yn cyfuno a chrynhoi gwybodaeth yn dda. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn ei chael yn anodd deall testun manwl a llunio casgliadau addas.

Mewn rhai pynciau, fel hanes a Saesneg, mae mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda at ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd, ac yn mynegi eu hunain yn glir. Mae'r disgyblion hyn yn trefnu eu hysgrifennu'n effeithiol, ac yn defnyddio geirfa eang, gan gynnwys termau sy'n benodol i bwnc, yn gywir. Fodd bynnag, mae medrau iaith lleiafrif ohonynt yn wan. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau rheolaidd â phriflythrennau, er enghraifft.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn tynnu llun graffiau addas ac yn gwneud cyfrifiadau syml mewn rhai pynciau. Mae'r disgyblion hyn yn dangos medrau rhifedd sylfaenol perthnasol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn ei chael yn anodd cymhwyso eu medrau rhifedd mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol. Er enghraifft, tra byddant yn gweithio tuag at Fagloriaeth Cymru, maent yn ymchwilio i wybodaeth ac yn defnyddio pecynnau TGCh at ddiben da wrth ddylunio arolygon a chyflwyno eu gwaith ar gyfer gwahanol

gynulleidfaoedd a dibenion. Mae disgyblion mewn celf yn creu animeiddiadau, gan gyfuno eu medrau TGCh a chreadigrwydd yn berthnasol.

Mae cynnydd disgyblion yn y Gymraeg yn gwella. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill cymhwyster TGAU cwrs llawn mewn Cymraeg, ac mae safonau'n cyd-fynd â safonau ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad mewn Cymraeg ail iaith ar lefel 5 neu'n uwch wedi gwella ac mae bellach yn cyd-fynd â pherfformiad ysgolion tebyg ar y cyfan. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ddefnyddio cyfarchion yn Gymraeg a gofyn cwestiynau syml i ymwelwyr.

Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg wedi bod islaw deilliannau wedi'u modelu mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae hyn yn bennaf oherwydd perfformiad gwael mewn mathemateg. Yn ystod y cyfnod hwn, mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi bod ymhell islaw perfformiad ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad merched yn y rhan fwyaf o ddangosyddion allweddol a phynciau islaw perfformiad merched mewn ysgolion tebyg. Mewn cyferbyniad, mae perfformiad bechgyn yn cymharu'n briodol â pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg, ac mae'n cymharu'n arbennig o dda mewn Saesneg.

Mae perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, wedi amrywio dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'n debyg i berfformiad yr un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg, neu'n uwch. Fodd bynnag, yn nhrothwy lefel 2, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gryn dipyn islaw cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd addas o gymharu â disgyblion tebyg mewn ysgolion eraill. Mae perfformiad disgyblion mwy abl yn amrywiol, ond mae'r gyfran sy'n ennill pum gradd A*- A mewn TGAU yn gyson islaw'r gyfran yn yr un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion eraill.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wedi gwella ac mae'n cyd-fynd â lefelau mewn ysgolion tebyg.

Er gwaethaf tuedd o wella, mae perfformiad disgyblion yn y chweched dosbarth yn gymharol wan bron ym mhob dangosydd.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn aros mewn addysg amser llawn naill ai mewn ysgol neu goleg addysg bellach.

| **2: Lles ac agweddau at ddysgu** | **Anfoddhaol, angen gwelliant brys** |
|---|---|

Mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at fwyta a byw yn iach, ac maent yn mwynhau gweithgarwch corfforol. Fodd bynnag, caiff ymddygiad ac agweddau gwael lleiafrif o ddisgyblion effaith negyddol ar y profiad ysgol i ddisgyblion a staff. Hefyd, mae rhai disgyblion yn amharchus iawn at staff pan gânt eu herio ynglŷn â'u

gweithredoedd neu'u hymddygiad. Mae cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol yn rhy uchel.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn cymryd rhan yn weithredol mewn gwersi ac maent yn ddysgwyr brwdfrydig. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn bwrw ymlaen â'u gwaith ar unwaith ac yn cymryd rhan yn dda yn y gweithgareddau, gan ddal ati i ganolbwyntio trwy gydol y wers. Maent yn talu sylw ac yn ymwrthod ag ymyriadau, gan ddilyn cyfarwyddiadau gan yr athro yn ofalus. Mae'r disgyblion hyn yn dangos parch at deimladau pobl eraill, ac maent yn gwybod pryd a sut i gynnwys pobl eraill mewn trafodaethau.

Fodd bynnag, mae rhai disgyblion yn cyrraedd gwersi'n hwyr ac mae hyn yn tarfu ar y dysgu.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn araf wrth ymdawelu mewn gwersi ac mae rhai disgyblion yn ymddieithrio am gyfnodau hir. Nid yw'r disgyblion hyn yn ymgysylltu â'u dysgu, maent yn ymddwyn yn amhriodol ac yn tarfu ar ddysgu disgyblion eraill.

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod ble i fynd i ofyn am gymorth. Maent yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio. Fodd bynnag, nid yw rhai disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn y coridorau ac ar yr iard yn ystod amser egwyl ac amser cinio oherwydd ymddygiad gwael disgyblion eraill.

Mae cyfraddau presenoldeb wedi bod islaw deilliannau wedi'u modelu am y tair blynedd ddiwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn, mae nifer y disgyblion sy'n absennol yn barhaus o'r ysgol wedi cynyddu ac mae ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn is na phresenoldeb yr un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg.

| | |
|---|---|
| **3: Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol, angen gwelliant** |

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn ddigonol ac mae angen ei wella.

Yn y mwyafrif o wersi, mae athrawon yn sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda'u dosbarthiadau. Defnyddiant amrywiaeth o ddulliau i ymgysylltu â disgyblion yn dda ac maent yn esbonio cysyniadau'n glir. Defnyddiant ystod o strategaethau effeithiol i fonitro cynnydd disgyblion ac maent yn llwyddiannus o ran cynnwys disgyblion mewn trafodaethau dosbarth. Mae athrawon yn cynllunio'n ofalus i sicrhau bod gweithgareddau'n datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac arferion sefydledig sy'n datblygu medrau penodol i bwnc y disgyblion.

Mewn lleiafrif o wersi, mae athrawon yn defnyddio technegau holi effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn gwneud cysylltiadau clir â dysgu blaenorol disgyblion ac yn cynllunio dilyniant o weithgareddau wedi'u llunio'n dda, sy'n hyrwyddo cynnydd da mewn dysgu. Mae'r athrawon hyn yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda iawn pan fydd angen.

Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae disgwyliadau athrawon yn rhy isel. Nid ydynt yn cynllunio gweithgareddau sy'n gweddu'n agos i allu disgyblion, ac mae

disgyblion yn treulio gormod o amser ar dasgau nad ydynt yn heriol. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn rheoli ymddygiad gwael lleiafrif o ddisgyblion yn ddigon da. Mae rhediad y dysgu yn rhy araf a phrin yw'r cynnydd a wna disgyblion.

Mewn tua hanner y gwersi, nid yw athrawon yn defnyddio holi yn ddigon da i archwilio a dyfnhau dealltwriaeth disgyblion. Nid ydynt yn monitro cynnydd disgyblion mewn gwersi yn ddigon manwl, ac felly ni allant fynd i'r afael ag unrhyw gamsyniadau.

Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn nodi'n gywir y cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yng ngwaith disgyblion ac yn rhoi targedau addas ar gyfer gwella iddynt. Fodd bynnag, at ei gilydd, ni chaiff adborth ysgrifenedig effaith ddigonol ar ansawdd gwaith disgyblion. Mewn lleiafrif o achosion, mae sylwadau'n rhy hir ac nid ydynt yn ddigon penodol i helpu disgyblion i wneud gwelliannau. Nid yw llawer o athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb digonol am eu gwaith eu hunain.

Mae'r ffaith fod yr ysgol yn gweithio mewn partneriaeth yn llwyddiannus yn ei galluogi i gynnig ystod eang o gymwysterau academaidd a galwedigaethol yn y chweched dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n briodol ar brofiadau dysgu blaenorol disgyblion. Fodd bynnag, mae ystod y cyrsiau a gynigir i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn rhy gyfyng. Caiff hyn effaith negyddol ar ymddygiad, ymgysylltiad a deilliannau disgyblion.

Mae'r ysgol wedi nodi cyfleoedd buddiol i feysydd pwnc gyfrannu at ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ac mae'n cynllunio ymyriadau addas ar gyfer disgyblion â medrau gwannach. Mae rhai adrannau yn cynllunio gweithgareddau addas i ddatblygu medrau disgyblion ochr yn ochr â'u gwybodaeth bwnc, fel trin data mewn daearyddiaeth. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o feysydd pwnc yn rhoi digon o sylw i ddatblygiad llythrennedd, rhifedd neu TGCh disgyblion. Mae llawer o dasgau yn gysylltiedig â medrau a gynigir gan athrawon yn arwynebol ac nid ydynt yn cysylltu'n ddigon agos â'r testun sy'n cael ei astudio.

Mae dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a hanes Cymru yn cael ei datblygu'n briodol ar draws y cwricwlwm. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth fuddiol ar gyfer Cymraeg ail iaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dilyn y cwrs llawn TGAU ac mae'r mwyafrif ohonynt yn ennill cymhwyster lefel 2 yn y pwnc.

| **4: Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol, ond angen gwelliant** |
|---|---|

Mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i'w cadw eu hunain yn iach trwy eu dewisiadau ffordd o fyw yn briodol. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, gwersi addysg gorfforol a chyfleoedd chwaraeon allgyrsiol yn cyfrannu'n dda at yr agwedd hon.

Ceir ystod addas o weithgareddau i ddatblygu medrau cymdeithasol a chreadigol disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys cynyrchiadau cerddorol blynyddol yr ysgol, heriau technolegol, a chymryd rhan mewn digwyddiadau hanes lleol yn y gymuned. Mae pynciau fel hanes ac astudiaethau crefyddol, y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, a gwasanaethau, hefyd yn cyfrannu'n ddefnyddiol at ddatblygu'r

agweddau hyn ar ddatblygiad disgyblion. Mae'r ddarpariaeth hon yn cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn briodol hefyd.

Caiff cynnydd a phresenoldeb pob un o'r disgyblion eu holrhain yn rheolaidd a'u monitro'n briodol gan yr ysgol. Gwneir defnydd buddiol o'r wybodaeth hon i nodi disgyblion a fyddai'n elwa ar gymorth ychwanegol, fel y rheiny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu â medrau gwan a'r rheiny yng nghyfnod allweddol 4 sydd mewn perygl o beidio â chyflawni eu potensial. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynllunio ymyrraeth a chymorth ar gyfer y disgyblion hyn yn ddigon da.

Mae'r ysgol yn cynnal adolygiadau rheolaidd o gyfeiriadau at gymorth gydag ymddygiad a chyfarfodydd amlasiantaethol misol buddiol i drafod y disgyblion sy'n achosi'r pryder mwyaf. Fodd bynnag, er bod y cyfarfodydd adolygu hyn yn darparu cyfleoedd i ystyried pa mor dda y mae disgyblion yn gwneud yn gyffredinol, nid ydynt yn helpu i arfarnu effaith ymyrraeth a chymorth penodol ar wella medrau neu ymddygiad yn ddigon manwl gywir.

Ceir anghysondeb wrth gymhwyso trefniadau rheoli ymddygiad yr ysgol ac mae'r defnydd a wneir o'r ystafell eithrio fewnol yn aneffeithiol. O ganlyniad, mae ymddygiad lleiafrif o ddisgyblion yn destun pryder mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol.

Mae cynorthwywyr addysgu yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer disgyblion yn y 'ganolfan addysg gefnogol' ac mewn gwersi prif ffrwd. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau addysg a chynlluniau cymorth ymddygiad unigol yn cynnwys strategaethau sy'n gweddu'n ddigon da i anghenion disgyblion unigol. Nid oes gan yr ysgol system ddigon cadarn i fonitro'r defnydd a wneir o'r cynlluniau hyn, a'u heffaith.

Grŵp bach a brwdfrydig o ddisgyblion yw'r cyngor ysgol. Maent yn cyfrannu'n dda at yr ysgol a'r gymuned trwy weithgareddau rheolaidd i godi arian. Maent wedi cefnogi datblygiad polisi gwrthfwlio buddiol yn ddiweddar hefyd. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw disgyblion yn cyfrannu digon at wneud penderfyniadau ar draws yr ysgol.

Mae rhieni yn derbyn adolygiadau cynnydd ac adroddiadau blynyddol addas sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am y modd y gallai disgyblion wella eu gwaith. Mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth berthnasol am ddewisiadau opsiwn, cardiau post canmol, cylchlythyrau a gohebiaeth reolaidd am bresenoldeb eu plant. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni yn ddigon da nac yn eu cynnwys yn ddigonol ym mywyd yr ysgol.

Tynnwyd sylw'r ysgol at rai agweddau ar weithdrefnau diogelu'r ysgol. At ei gilydd, mae'r polisi a'r gweithdrefnau diogelu yn bodloni'r gofynion.

| **5: Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol, angen gwelliant** |
|---|---|

Ers tynnu'r ysgol o'r categori gwelliant sylweddol yn 2013, nid yw arweinwyr wedi cynnal y gwelliannau cynnar mewn safonau yng nghyfnod allweddol 4. Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae'r ysgol wedi wynebu cyfnod sylweddol o newid gyda gostyngiadau mewn niferoedd. Er bod arweinwyr wedi rheoli'r agweddau ariannol ar

hyn yn dda, nid yw arweinyddiaeth ar draws yr ysgol wedi arwain at welliannau digonol mewn agweddau allweddol ar waith yr ysgol, fel presenoldeb neu ymddygiad disgyblion.

Er mis Medi, mae’r pennaeth wedi ailstrwythuro’r uwch dîm arweinyddiaeth i ganolbwyntio’n fanylach ar anghenion yr ysgol.  O ganlyniad, mae rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr wedi eu diffinio’n well ac yn cyd-fynd yn agosach â blaenoriaethau’r ysgol ar gyfer gwella.  Mae’r arweinwyr hyn yn dechrau hyrwyddo gweledigaeth gyson ar gyfer gwella’r ysgol, sydd wedi’i hadeiladu o gwmpas gwella ansawdd yr addysgu a pharodrwydd disgyblion i ddysgu.  Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae arweinwyr wedi bod yn araf yn mynd i’r afael ag agweddau pwysig yn yr ysgol y mae angen eu gwella.

Mae mwyafrif o arweinwyr canol yn darparu arweinyddiaeth effeithiol yn eu meysydd cyfrifoldeb ac yn sicrhau darpariaeth a chymorth gwerth chweil ar gyfer disgyblion.  Fodd bynnag, mewn lleiafrif o feysydd, ni chaiff cynnydd disgyblion ei gydlynu, ei gynllunio na’i fonitro yn ddigon cadarn.  O ganlyniad, mae gormod o ddisgyblion nad ydynt yn cyflawni eu llawn botensial.

Mae llywodraethwyr wedi ymrwymo’n llawn i gefnogi’r ysgol ac maent yn deall eu rolau yn gynyddol dda.  Mae eu rhan mewn hunanarfarnu a gwelliant wedi datblygu’n addas dros y flwyddyn ddiwethaf.  O ganlyniad, cânt olwg realistig ar safonau a darpariaeth yn yr ysgol ac maent yn darparu her adeiladol i arweinwyr.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi dechrau herio tanberfformio gan staff yn fwy trylwyr.  Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw amcanion rheoli perfformiad a osodwyd ar gyfer staff yn ddigon penodol.  O ganlyniad, ni all arweinwyr ddwyn pob aelod o staff i gyfrif yn gadarn am y deilliannau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol raglen sicrhau ansawdd graidd ar waith, sy’n cefnogi ei phrosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant.  Mae’r adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan yn cynnwys dadansoddiad a gwerthusiad syml o berfformiad yn y rhan fwyaf o’r dangosyddion allweddol.  Fodd bynnag, nid yw’n cynnwys arfarniad o rai agweddau pwysig fel pynciau nad ydynt yn rhai craidd yng nghyfnod allweddol 4, ymddygiad na phresenoldeb disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.  Yn ychwanegol, mae gwerthusiad yr ysgol o’i gwaith mewn sawl maes yn rhy hael, er enghraifft faint o effaith a wnaed hyd yn hyn gan strategaeth ‘Perthnasoedd ac Adfer’ yr ysgol i wella ymddygiad disgyblion a lefelau eu parch at fywyd ysgol.

Eir ati i holi safbwyntiau disgyblion yn briodol ac mae’r ysgol yn dechrau defnyddio’r canfyddiadau hyn i ffurfio blaenoriaethau’r ysgol.  Fodd bynnag, nid yw’r ysgol wedi gofyn am safbwyntiau rhieni yn ddigon da.

Mae blaenoriaethau yng nghynllun gwella’r ysgol yn cyd-fynd yn briodol ag anghenion yr ysgol.  Fodd bynnag, ni eir i’r afael yn ddigonol â rhai meysydd allweddol i’w gwella yn y cynlluniau, fel gwella deilliannau yn y chweched dosbarth neu wella cyfraddau presenoldeb ar gyfer disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn meddu ar gymwysterau addas ac fe’u defnyddir yn briodol i wneud y defnydd gorau o’u harbenigedd pwnc.  Mae’r ysgol yn darparu

cyfleoedd datblygiad proffesiynol perthnasol ar gyfer staff.  Fodd bynnag, cyfyngedig fu effaith y rhain ar wella ansawdd yr addysgu a rheoli ymddygiad disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn monitro cyllid yr ysgol yn dda ac maent wedi cynnal cyllideb gytbwys, er gwaethaf yr heriau yn sgil gostyngiad yn niferoedd y disgyblion.

Mae defnydd yr ysgol o'i Grant Amddifadedd Disgyblion wedi arwain at welliannau ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn Saesneg a mathemateg ar ddiwedd Blwyddyn 11.  Fodd bynnag, nid yw defnydd yr ysgol o'r grant hwn wedi cael digon o effaith ar ddeilliannau pwysig eraill ar gyfer y disgyblion hyn, nac ar eu presenoldeb.

## Ynglŷn â'r ysgol

Ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 18 oed yw Ysgol Uwchradd Dinbych, ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae nifer y dysgwyr wedi gostwng o 726 adeg yr arolygiad diwethaf i'r 607 o ddysgwyr sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd. Dros y cyfnod hwn, mae'r nifer yn y chweched dosbarth wedi gostwng yn sylweddol o 126 i'r 75 o ddysgwyr sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu Dinbych, Llanelwy a'r ardaloedd gwledig cyfagos. Mae tua 17% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.1%. Mae ychydig dros 14% o ddisgyblion yn byw yn y 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae tua 6% o'r dysgwyr yn siarad Cymraeg fel mamiaith neu i safon gyfatebol. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol ac ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o'r ystod gallu lawn. Mae mwy o fechgyn na merched ym mhob grŵp blwyddyn. Mae tua 42% o ddisgyblion wedi eu nodi ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig. Mae hyn gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25.1%. Mae gan ryw 3% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.4%.

Ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth, mae'r ysgol yn rhan o Gonsortiwm Dyffryn Clwyd ynghyd ag ysgolion eraill a dau goleg addysg bellach.

Dechreuodd y pennaeth ar ei swydd ym Medi 2011. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys tri phennaeth cynorthwyol, y penodwyd pob un ohonynt ers yr arolygiad diwethaf.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Uwchradd Dinbych yn 2016-2017 yn golygu mai'r gyllideb yw £5,201 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn Sir Ddinbych yw £5,516 a'r isafswm yw £4,189. Mae Ysgol Uwchradd Dinbych yn y trydydd safle o'r saith ysgol uwchradd yn Sir Ddinbych o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Atodiad 1: Tabl cryno o feysydd a arolygwyd

| | |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol, angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Anfoddhaol, angen gwelliant brys** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol, angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol, angen gwelliant** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol, angen gwelliant** |

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa barnau bedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arfer gadarn a chynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gallai fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol, angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond mae angen gwella agweddau pwysig |
| **Anfoddhaol, angen gwelliant brys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

# Atodiad 2: Data perfformiad

**6634026 - Denbigh High School**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 542 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 17.0 | |
| Grŵp PYD | 3 | (15%<PYD<=20%) |

**Cyfnod allweddol 3**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2016) | Cyfartaledd Cymru (2016) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | | |
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 9** | 110 | 92 | 105 | 67 | | |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 78.2 | 83.7 | 83.8 | 85.1 | 88.5 | 85.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 3 | | |
| **Saesneg** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 110 | 92 | 105 | 67 | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 81.8 | 90.2 | 86.7 | 85.1 | 92.3 | 89.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 4 | 4 | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 43.6 | 57.6 | 48.6 | 53.7 | 53.0 | 56.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 3 | | |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | . | . | . | . | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | . | . | . | . | . | 92.0 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | . | . | . | . | . | 57.2 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| **Mathemateg** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 110 | 92 | 105 | 67 | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 90.0 | 91.3 | 90.5 | 92.5 | 91.9 | 90.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 2 | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 41.8 | 59.8 | 52.4 | 58.2 | 59.8 | 62.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 4 | | |
| **Gwyddoniaeth** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 110 | 92 | 105 | 67 | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 83.6 | 94.6 | 97.1 | 94.0 | 95.3 | 92.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 3 | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 39.1 | 57.6 | 54.3 | 61.2 | 57.5 | 62.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 3 | | |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 5 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Caiff y meincnodau ar gyfer y Gymraeg eu cyfrifo gan ddefnyddio pob ysgol lle mae disgyblion yn dilyn cymwysterau Cymraeg mamiaith, ac maent yn seiliedig ar nifer yr ymgeiswyr.  Nid ydynt yn cynnwys cymwysterau Cymraeg ail iaith.

# Adroddiad ar Ysgol Uwchradd Dinbych
# Tachwedd 2016

**6634026 - Denbigh High School**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 542 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 17.0 | |
| Grŵp PYD | 3 | (15%<PYD<=20%) |

**Cyfnod allweddol 4**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2015) | Cyfartaledd Cymru (2015) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | | |
| **Nifer y disgyblion 15 oed** | 123 | 136 | 125 | 101 | | |
| **Canran y disgyblion 15 oed sydd:** | | | | | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys TGAU gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg** | 49.6 | 50.7 | 58.4 | 58.4 | 63.0 | 57.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 3 | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2** | 65.0 | 70.6 | 84.0 | 70.3 | 84.1 | 84.1 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 1** | 95.9 | 97.8 | 99.2 | 98.0 | 98.2 | 94.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 3 | | |
| **Wedi cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC)** | 43.1 | 40.4 | 55.2 | 51.5 | 61.8 | 54.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 4 | | |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio fesul disgybl** | 316.1 | 326.3 | 355.3 | 334.1 | 352.3 | 343.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 4 | | |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio a mwy fesul disgybl** | 315.4 | 324.3 | 351.3 | 331.8 | 348.8 | 338.7 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| **Cyflawnwyd pump neu fwy o raddau TGAU A* -A** | 10.6 | 7.4 | 12.0 | 13.9 | 17.3 | 16.6 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn Saesneg** | 65.0 | 62.5 | 71.2 | 69.3 | 73.7 | 68.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 3 | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn mathemateg** | 61.8 | 56.6 | 64.0 | 60.4 | 70.6 | 64.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 4 | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn gwyddoniaeth** | 58.5 | 57.4 | 82.4 | 73.3 | 90.0 | 84.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 | | |
| **Nifer y disgyblion 15 oed a gofrestrodd ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf:** | * | 8 | . | . | | |
| **O'r rheini â geisiodd Cymraeg iaith gyntaf:** | | | | | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn Cymraeg iaith gyntaf** | * | 25.0 | . | . | 75.0 | 75.2 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | . | . | | |

Mae'n cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru.

Mae'n cynnwys canlyniadau ar gyfer disgyblion 15 oed, mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ac unrhyw arholiadau a gymerwyd ar oed cynharach. Oedrannau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 2 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

Caiff y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio ei chyfrifo gan ddefnyddio'r 8 canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru ar gyfer pob disgybl.

Yn achos disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf, defnyddir y radd orau ar gyfer Cymraeg iaith a llenyddiaeth. Enwadur y dangosydd yma yw'r disgyblion 15 oed a geisiodd arholiad Cymraeg Iaith Gyntaf, yn hytrach na chyfanswm yr holl ddisgyblion 15 oed.

. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Caiff y meincnodau ar gyfer y Gymraeg eu cyfrifo gan ddefnyddio pob ysgol lle mae disgyblion yn dilyn cymwysterau Cymraeg mamiaith, ac maent yn seiliedig ar nifer yr ymgeiswyr. Nid ydynt yn cynnwys cymwysterau Cymraeg ail iaith.

# Adroddiad ar Ysgol Uwchradd Dinbych
Tachwedd 2016

**6634026 - Denbigh High School**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 542 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 17.0 | |
| Grŵp PYD | 3 | (15%<PYD<=20%) |

**Cyfnod allweddol 4 - perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2015) | Cyfartaledd Cymru (2015) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | | |
| **Nifer y disgyblion 15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim** | 21 | 27 | 17 | 10 | | |
| **Canran y disgyblion 15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sydd:** | | | | | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys TGAU gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg** | 14.3 | 33.3 | 29.4 | 20.0 | 34.8 | 31.6 |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2** | 23.8 | 44.4 | 64.7 | 40.0 | 69.1 | 69.4 |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 1** | 95.2 | 96.3 | 100.0 | 100.0 | 94.8 | 89.4 |
| **Wedi cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC)** | 14.3 | 25.9 | 29.4 | 20.0 | 33.9 | 29.3 |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio fesul disgybl** | 244.1 | 271.2 | 320.2 | 286.2 | 313.8 | 303.7 |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio a mwy fesul disgybl** | 243.8 | 269.0 | 316.5 | 282.3 | 308.3 | 296.4 |
| **Cyflawnwyd pump neu fwy o raddau TGAU A* -A** | 0.0 | 0.0 | 11.8 | 10.0 | 5.6 | 4.3 |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn Saesneg** | 28.6 | 37.0 | 52.9 | 30.0 | 47.2 | 45.1 |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn mathemateg** | 42.9 | 33.3 | 35.3 | 20.0 | 43.3 | 39.2 |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn gwyddoniaeth** | 23.8 | 40.7 | 70.6 | 40.0 | 80.7 | 74.4 |
| **Nifer y disgyblion 15 oed a gofrestrodd ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf:** | . | * | . | . | | |
| **O'r rheini â geisiodd Cymraeg iaith gyntaf: Wedi cyflawni A*-C mewn Cymraeg iaith gyntaf** | . | * | . | . | . | 51.5 |

Mae'n cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru.
Mae'n cynnwys canlyniadau ar gyfer disgyblion 15 oed, mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ac unrhyw arholiadau a gymerwyd ar oed cynharach. Oedrannau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.
Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 2 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.
Caiff y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio ei chyfrifo gan ddefnyddio'r 8 canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru ar gyfer pob disgybl.
Yn achos disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf, defnyddir y radd orau ar gyfer Cymraeg iaith a llenyddiaeth. Enwadur y dangosydd yma yw'r disgyblion 15 oed a geisiodd arholiad Cymraeg Iaith Gyntaf, yn hytrach na chyfanswm yr holl ddisgyblion 15 oed.
. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Adroddiad ar Ysgol Uwchradd Dinbych
Tachwedd 2016

**6634026 - Denbigh High School**

Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn y chweched dosbarth 106

**Cyfnod allweddol 5**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2015) | Cyfartaledd Cymru (2015) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2012** | **2013** | **2014** | **2015** | | |
| **Nifer y disgyblion 17 oed** | 44 | 59 | 56 | 47 | | |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog fesul disgybl** | 594.9 | 584.8 | 617.7 | 613.6 | 770.5 | 799.7 |
| **Nifer y disgyblion 17 oed sy'n sefyll cymwysterau cyfwerth â 2 Safon Uwch:** | 37 | 52 | 50 | 45 | | |
| **O'r rheiny a gofnododd swm sydd gyfwerth â 2 gymhwyster Safon Uwch:** | | | | | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 3** | 91.9 | 94.2 | 90.0 | 95.6 | 97.7 | 97.0 |
| **Wedi cyflawni 3 A*-A mewn arholiadau Safon Uwch neu gyfwerth** | 2.7 | 0.0 | 0.0 | 4.4 | 5.6 | 7.9 |
| **Wedi cyflawni 3 A*-C mewn arholiadau Safon Uwch neu gyfwerth** | 37.8 | 32.7 | 42.0 | 40.0 | 60.7 | 68.1 |

Yn cynnwys pob cymhwyster cydnabyddedig yng Nghymru.
Mae'n cynnwys canlyniadau ar gyfer disgyblion 17 oed, mewn ysgolion a gynhelir, a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ac unrhyw arholiadau a gymerwyd ar oed cynharach. Oedrannau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.
Mae'r sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog ar gyfer disgyblion 17 oed yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-18 yng Nghymru.
Mae trothwy lefel 3 wedi'i seilio ar nifer y disgyblion 17 oed sy'n sefyll cymwysterau cyfwerth â 2 Safon Uwch.
. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, trwy'r ddolen gyswllt isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?lang=eng

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Fe wnaethom ddefnyddio'r arolygiad hwn i arbrofi â datblygiadau i'r fframwaith arolygu cyffredin, y broses arolygu a fformat yr adroddiad arolygu. Byddwn yn adolygu'r trefniadau hyn ac yn gwneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen cyn eu cyflwyno yn genedlaethol ym Medi 2017.

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/01/2017**